


# Gwasanaeth Cynllunio i'r Dyfodol

- Ysgrifennu Ewyllys
- Atwrneiaeth Arhosol (LPA)
- Penderfyniad Ymlaen Llaw (Ewyllys Fyw)



# Ni yw Age Cymru.

Age Cymru yw'r elusen genedlaethol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru.

Rydym yn ymgyrchu, yn gwneud gwaith ymchwil ac yn codi arian er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn adeiladu bywyd gwell i bob person hŷn. Rydym yn sicrhau bod lleisiau pobl hŷn yn cael eu clywed, ein bod ni'n herio ac yn newid agweddau ac rydym ni'n brwydro yn erbyn gwahaniaethu lle bynnag rydym ni'n dod ar ei draws.

Rydym yn darparu ystod o wasanaethau a rhaglenni cenedlaethol a lleol yn uniongyrchol i bobl hŷn yn y gymuned ac rydym yn cwrdd â'r safonau uchaf fel y gallwch fod yn sicr o gysondeb ac ansawdd lle bynnag y gwelwch enw a logo Age Cymru.

Mae ein teulu yn cynnwys partneriaid Age Cymru lleol a phartneriaid cenedlaethol, Age NI, Age Scotland ac Age UK.

Age Cymru  
Llawr Isaf, Tŷ Mariners  
Llys Trident, Heol East Moors  
Caerdydd CF24 5TD  
Ffôn: 029 2043 1555  
[www.agecymru.org.uk](http://www.agecymru.org.uk)

**Dilynwch ni ar:**

 [facebook.com/agecymru](https://facebook.com/agecymru)  [twitter.com/agecymru](https://twitter.com/agecymru)

Mae Age Cymru yn elusen gofrestrdig: 1128436. Mae'n gwmni cyfyngedig trwy warant ac wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr 6837284. Cyfeiriad ein swyddfa gofrestrdig Llawr Isaf, Tŷ Mariners, Llys Trident, Heol East Moors, Caerdydd CF24 5TD.

Yddiad cyhoeddi: Chwefror 2020 © Age Cymru 2020

# Cynllunio i'r Dyfodol

Yn rhoi'r tawelwch meddwl i chi sy'n dod gyda chynllunio i'r dyfodol. Gall ein Gwasanaeth Cynllunio i'r Dyfodol helpu gyda'r canlynol:

## Ysgrifennu Ewyllys

Ysgrifennu Ewyllys yw'r unig ffordd i sicrhau bod eich dymuniadau'n cael eu parchu ar ôl i chi farw. Efallai nad ydych wedi cael cyfle i ysgrifennu un, neu efallai eich bod wedi bod yn gohirio gwneud yn fwriadol, ond mae'r broses yn gallu bod yn eithaf syml.

**Tudalen 5**

## Atwrneiaeth Arhosol (LPA)

Nid oes gan unrhyw un hawl awtomatig i gymryd rheolaeth o'ch arian neu ofal (nid hyd yn oed eich gŵr/gwraig). Rhaid iddynt gael eich caniatâd chi. Mae Atwrneiaeth Barhaol (LPA) yn ffordd o roi awdurdod cyfreithiol i rywun rydych chi'n ymddiried ynddo i wneud penderfyniadau ar eich rhan, os na allwch chi wneud penderfyniadau eich hun neu os nad ydych chi eisiau gwneud hynny.

**Tudalen 6**

## Penderfyniad Ymlaen Llaw (Ewyllys Fyw)

Gallwch wneud penderfyniadau ynghylch eich gofal tra bod gennych alluedd meddyliol. Mae hyn yn cynnwys penderfyniadau ynghylch y mathau o driniaeth feddygol rydych chi eu heisiau, neu y byddech chi'n eu gwrthod, pe na fyddech chi'n gallu gwneud na chyfleu'ch penderfyniadau eich hun yn y dyfodol. Mae Penderfyniad Ymlaen Llaw (a elwir weithiau yn Ewyllys Fyw) yn rhwymo mewn cyfraith a rhaid i weithwyr iechyd proffesiynol ei ddilyn.

**Tudalen 7**

## Storio Dogfennau'n Ddiogel

Y ddogfen wreiddiol, wedi'i llofnodi, yw'r unig fersiwn o'ch ewyllys sy'n gyfreithiol rwymol, felly mae'n bwysig eich bod yn ei chadw'n ddiogel. Rydym yn cynnig gwasanaeth storio dogfennau diogel a rhad trwy'r Archif Ewyllysion Genedlaethol.

**Tudalen 8**

---

**Ffoniwch y Tîm Cynllunio i'r Dyfodol ar  
029 2043 1555 neu e-bostiwch  
LLP@agecymru.org.uk am ragor o  
wybodaeth a'r rhestr brisiau ar gyfer ein  
holl wasanaethau Cynllunio i'r Dyfodol.**

---

**Mae ein Swyddogion Cynllunio i'r Dyfodol wedi'u hyfforddi a'u hachredu'n llawn mewn ysgrifennu ewyllysion a chynllunio ystadau gan y Coleg Ysgrifennu Ewyllysion. Mae ganddynt Dystysgrif Ewyllysion a Chynllunio Ystadau ac maent yn aelodau proffesiynol o'r Gymdeithas Ysgrifenywyr Ewyllysion.**

Y Gymdeithas Ysgrifenywyr Ewyllysion yw'r corff hunanreoli blaenllaw ar gyfer Cynllunwyr Ystad Proffesiynol.



- Mae'r aelodau yn cadw at god ymarfer a gweithdrefn gwyno llym y gymdeithas.
- Mae'r aelodau yn mynd trwy broses ymgeisio llym a chadarn.
- Disgwylir i'r aelodau barhau â'u hyfforddiant, ac ymgymryd ag o leiaf 24 awr o hyfforddiant pob blwyddyn.
- Mae gan aelodau fynediad i gymorth technegol i sicrhau eu bod yn cynnig y gwasanaeth gorau i'w cleientiaid.
- Mae gan aelodau yswiriant indemniad proffesiynol gyda sicrwydd gwerth o leiaf £2 filiwn.
- Mae aelodau yn cynnig cyfnod callio statudol o 14 diwrnod yn unol â Rheoliadau Contractau Defnyddwyr.

---

**Gallwch ymddiried yn Age Cymru i ddarparu gwasanaeth o safon a sicrhau bod eich dymuniadau'n cael eu cyfleu gydag empathi a sensitifrwydd.**

---



# Ysgrifennu Ewyllys

## Pam ddylwn i ysgrifennu Ewyllys?

Mae Ewyllys yn caniatáu i'ch anwyliaid roi trefn ar bethau yn llawer haws ar ôl i chi farw. Gall peidio â chael Ewyllys arwain at broses hirfaith, ac yn ystod yr amser hwnnw efallai na fydd eich buddiolwyr yn gallu codi unrhyw arian o'ch ystâd.

Heb Ewyllys, mae yna rai rheolau sy'n pennu sut y dylid dyrannu'r arian a'r eiddo, yn groes i'ch dymuniadau efallai.

Os ydych yn briod, peidiwch â chymryd yn ganiataol mai eich gŵr neu wraig fydd yn etifeddu popeth. Efallai y bydd gan aelodau eraill o'r teulu hawl.

Os nad ydych yn briod ond yn byw fel cwpl, efallai y cewch eich trin fel person sengl ac efallai na fydd eich partner sy'n goroesi yn cael dim o gwbl.

Os ydych yn sengl, efallai y byddwch yn dymuno i'ch ystâd gael ei rhannu rhwng cyfeillion, perthnasau ac elusennau mewn cyfrannau cyfartal neu anghyfartal.

Os ydych yn rhiant, dylech ystyried pwy yr hoffech ofalu am eich plant pe baech yn marw. Mae Ewyllys sy'n enwebu gwarcheidwaid yn amhrisiadwy mewn achosion o'r fath. Os nad ydych wedi mynegi eich dymuniadau, bydd y Llys yn penderfynu ar ddyfodol eich plant ac efallai nad dyna'r hyn y byddech chi na'ch plant wedi'i ddymuno.

Mae'n werth cofio hefyd na all partneriaid dibriod etifeddu oddi wrth ei gilydd oni bai bod Ewyllys ar waith ac efallai na fydd unrhyw ddymuniadau i'ch plant yn cael eu gweithredu. Mae'n bwysig hefyd, os ydych chi'n ail-briodi neu os bydd eich amgylchiadau'n newid, eich bod chi'n newid eich Ewyllys yn unol â hynny.

---

**Gall cael Ewyllys sicrhau nad oes dadleuon ac anghydfodau ar adeg pan ddylai'ch teulu fod yn galaru ac yn delio â cholli rhywun annwyl.**

---

Mae Cymdeithas yr Ysgrifenydd Ewyllys yn cynghori y dylai pobl adolygu eu Hewyllys pob **3-5 mlynedd** er mwyn ystyried newidiadau mewn amgylchiadau.

# Atwrneiaeth Arhosol (LPA)

## Beth yw Atwrneiaeth Arhosol?

Dogfen gyfreithiol sy'n caniatáu i chi benodi un neu fwy o bobl i'ch helpu i wneud penderfyniadau neu i wneud penderfyniadau ar eich rhan pan nad ydych chi'n gallu gwneud mwyach. Mae hyn yn rhwystro dieithryn, neu rywun nad ydych efallai yn ymddiried ynddynt, rhag cael unrhyw bŵer dros benderfyniadau'n ymwneud â'ch lles.

Peidiwch â chymryd yn ganiataol y gall eich perthynas agosaf wneud penderfyniadau pwysig ar eich rhan. Ni all unrhyw un wneud y penderfyniadau hyn oni bai bod ganddynt yr hawl cyfreithiol i wneud hynny.

Peidiwch ag aros nes y byddwch yn eiddil neu mewn iechyd gwael. Gall unrhyw un sydd dros 18 oed a gyda galluedd meddyliol llawn drefnu Atwrneiaeth Arhosol. Efallai y byddwch chi'n colli eich gallu i wneud penderfyniadau oherwydd damwain, bod mewn coma neu salwch meddwl. Os ydych yn colli eich galluedd, bydd hi'n rhy hwyr i drefnu LPA.

---

**Nid yw'n hawdd meddwl am amser pan na fyddwch bellach yn gallu gwneud eich penderfyniadau eich hun. Ond os daw'r amser hwnnw, gall cael LPA wneud bywyd ychydig yn haws a lleihau'r straen a'r pryder arnoch chi a'ch teulu.**

---

Mae yna ddau fath o LPA: un ar gyfer **iechyd a gofal** ac un ar gyfer **penderfyniadau ariannol**.

- Dim ond os byddwch yn colli eich galluedd meddyliol y gellir defnyddio LPA ar gyfer iechyd a gofal. Gall hyn gynnwys; gwneud penderfyniadau ynghylch ble y dylech chi fyw, eich gofal meddygol, beth ddylech chi ei fwyta, gyda phwy y dylech chi fod mewn cysylltiad â nhw a pha fath o weithgareddau cymdeithasol y dylech chi gymryd rhan ynddynt.
- Gellir defnyddio'r LPA ar gyfer penderfyniadau ariannol yn syth ar ôl ei chofrestru. Gall hyn gynnwys; talu biliau, talu'r morgais, trefnu atgyweiriadau i'ch cartref neu werthu eich cartref.

# Penderfyniad Ymlaen Llaw (Ewyllys Fyw)

## Beth yw Penderfyniad Ymlaen Llaw neu Ewyllys Fyw?

Mae Penderfyniad Ymlaen Llaw neu Ewyllys Fyw yn benderfyniad y gallwch ei wneud nawr i wrthod math penodol o driniaeth ar ryw adeg yn y dyfodol.

Mae'n gadael i'ch gofalwyr a'ch gweithwyr iechyd proffesiynol wybod eich dymuniadau ynglŷn â gwrthod triniaeth a byddai yn dod yn berthnasol dim ond os nad ydych yn gallu gwneud neu gyfleu'r penderfyniadau hynny eich hun.

Dylech adolygu eich Penderfyniad Ymlaen Llaw yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i adolygu eich barn. Efallai bydd eich amgylchiadau penodol a chyflwr eich iechyd yn dylanwadu ar ba mor aml sydd angen i chi wneud hyn. Bydd adolygu eich penderfyniad yn rheolaidd yn helpu'r meddyg sy'n eich trin i deimlo'n ffyddiog nad ydych wedi newid eich meddwl.

Gallwch newid Penderfyniad Ymlaen Llaw ar unrhyw adeg tra bod gennych y galluedd meddyliol i wneud hynny.

---

**Ffoniwch y tîm Cynllunio i'r Dyfodol ar 029 2043 1555 neu e-bostiwch [LLP@agecymru.org.uk](mailto:LLP@agecymru.org.uk) am ragor o wybodaeth a'r rhestr brisiau ddiweddaraf ar gyfer ein holl Wasanaethau Cynllunio i'r Dyfodol.**

---

# Storio Dogfennau'n Ddiogel

**Mae ein Gwasanaeth Cynllunio i'r Dyfodol yn cael ei ategu gan wasanaeth diogel a rhad ar gyfer storio eich Ewyllys.**

Gallwn sicrhau bod eich Ewyllys (y ddogfen wreiddiol, gyfreithiol rwymol) yn cael ei storio gan yr Archif Ewyllysion Genedlaethol i sicrhau nad yw'n mynd ar goll ac y gellir dod o hyd iddi'n hawdd, hyd yn oed os nad ydych wedi dweud wrth unrhyw un ei bod yno.

Mae'r Archif Ewyllysion Genedlaethol wedi bod yn storio dogfennau pwysig ers dros 20 mlynedd ac mae dros 100,000 o ddogfennau cyfreithiol yn cael eu cadw yn y cyfleuster storio diogel.

Dod o hyd i'ch ewyllys yw'r dasg gyntaf i'ch ysgutorion. Mae'r Archif Ewyllysion Genedlaethol yn gwneud y dasg hon yn llawer symlach.

Mae'r Archif Ewyllysion Genedlaethol yn sicrhau y gellir adfer eich Ewyllys yn hawdd, ar adeg a all fod yn amser anodd iawn i deulu a ffrindiau agos.

## Mae prisiau ar gyfer yr holl wasanaethau ar gael ar gais.

---

Gwasanaeth Cynllunio i'r Dyfodol  
Age Cymru  
Tŷ Mariners  
Llys Trident  
Heol East Moors  
Caerdydd  
CF24 5TD

029 2043 1555  
LLP@agecymru.org.uk